# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (YBELL TRWY TEAMS)

**Aelodau'n bresennol:** **Dydd Mawrth, 27 Gorffennaf 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | D.Keogh, R.Mizen, S.Bamsey, R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock a/ac S.Renkes |
| **Aelod CDU/CDLl:** | Aelod A Wingrave |
| **Aelodau Lleol:** | Aelod D.Cawsey |
| **Swyddogion yn bresennol:** | S.Ball, M.Shaw, R.MacGregor, J.Griffiths, S.Evans, D.Thomas, G.White a/ac T.Davies |

---

1. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD (AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

   **PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

2. **CAIS RHIF P2021/0327 – CANOLFAN RAGORIAETH FYD-EANG AR GYFER RHEILFFYRDD.**

   Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Datblygiad Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd) a fydd yn cynnwys dau drac prawf cyfluniad dolen a fydd yn drac profi wagenni cyflymder uchel wedi'i drydanu, 6.9km o hyd, a thrac profi isadeiledd cyflymder isel wedi'i drydanu o 4.5km, gyda chyfarpar gwifren uwchben (OLE) ac amgylchedd profi gorsaf platfform deuol; ynghyd â swyddfeydd gweithrediadau a rheoli (gan gynnwys llety a lles staff), 2 gaban siyntwyr, ymchwil a datblygu, addysg a hyfforddiant, cilffyrdd storio wagenni a chyfleusterau cynnal a chadw/glanhau/datgomisynu; a draeniad cysylltiedig, mynedfeydd

mewnol i gerbydau, cysylltiad rheilffordd llinell leol, parcio i staff ac ymwelwyr, goleuadau, isadeiledd trydanol (gan gynnwys is-orsafoedd a chyflenwadau ategion a newidyddion ymyl y llinell, ffensys (diogeledd y perimedr, gwrth-acwstig ac i rwystro anifeiliaid), gwella'r tir a thirlunio caled a meddal, ynghyd â dymchwel adeiladau/adeileddau sy'n bodoli (cais traws-ffiniol sy'n effeithio ar dir o fewn ffiniau gweinyddol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Powys) gweler Cais CS Powys, cyfeirnod 21/0559/OUT) ar Dir yn Safle Glo Brig Nant Helen, Powys ac o'i gwmpas a Chanolfan Ddosbarthu Onllwyn, Castell-nedd Port Talbot.) fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr Aelod Ward lleol yn bresennol i wneud ei sylwadau yn ogystal â'r asiant a'r ymgeisydd, y siaradodd y ddau ohonynt ynghylch y cais.

**PENDERFYNWYD:** Yn unol ag argymhellion y swyddogion, a’r amodau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, y dylid cymeradwyo Cais Rhif P2021/0327.

**CADEIRYDD**